



**HEDDLU  
DE CYMRU**  
**SOUTH WALES  
POLICE**

## Cynllun Gwella Rhyddid Gwybodaeth mis Gorffennaf 2024

Wedi'i gydymffurfio a'i gyhoeddi mewn ymateb i Hysbysiad Gorfodi a gyhoeddir gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ym mis Mehefin 2024

### 1. Llywodraethu a Sicrwydd

Rhif	Cam Gweithredu	Pwrpas	Amserlen
1.1	Cydgysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i drafod y Cynllun Gwella hwn a chasglu cyngor ac arweiniad yr aelodau.	Sicrhau tryloywder a'n bod yn defnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael i ni.	Dechrau cydgysylltu'n barhaus
1.2	Adolygu Cofrestr Risg Adrannol mewn perthynas â chydymffurfio â Rhyddid Gwybodaeth	Sicrhau goruchwyliaeth ddigonol mewn perthynas â diffyg gallu i fodloni gofynion fel y gellir gwneud gwelliannau cynaliadwy.	Ar waith
1.3	Cyhoeddi data ar Berfformiad Rhyddid Gwybodaeth ar wefan yr heddlu	Gwella tryloywder ac atebolrwydd graddau cydymffurfiaeth yr heddlu drwy gyhoeddi detholiad Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu ar gyfer perfformiad Rhyddid Gwybodaeth	Misol
1.4	Dylid rhannu data ar Berfformiad Misol gyda'r Uwchberchennog Risg Gwybodaeth a'r Pennaeth IM	Dylid cyflwyno ystadegau yn rheolaidd er mwyn sicrhau monitro da a chymryd camau rheoli yn gynnar lle y bo'n briodol.	BAU - mynd rhagddo

1.5	Uwchgyfeirio materion drwy'r Bwrdd Sicrwydd Gwybodaeth i sicrhau bod perfformiad yn cael ei reoli a'i gynnal yn briodol a nodi meysydd busnesau fel y bo angen.	Oherwydd llif symudiadau'r uwch-staff yn y sefydliad, a'r Unedau Rheoli Sylfaenol, bydd hyn yn sicrhau cysondeb ac atebolrwydd ar draws yr holl adrannau sydd â chyfrifoldeb i gyhoeddi'r deunydd fel rhan o'r cynllun cyhoeddi ac hefyd meysydd a nodir sy'n darparu ymatebion rheolaidd, fel y PSD, BI a Pherfformiad.	Ar unwaith
1.6	Sicrwydd Ansawdd a Matrics Sgiliau i'w dylunio ag atebolrwydd clir. Ystyried defnyddio Cynlluniwr / rhestrau MS	Sicrhau cydymffurfiaeth â'r deddfwriaeth a phrosesau.	Rhagfyr
1.7	Ymarfer Ansawdd Data i sicrhau bod statws cais yn cael ei adlewyrchu'n gywir yn ein hadroddiadau ystadegol a chael dealltwriaeth glir o bwy sy'n ymdrin â'r cais.	Sicrhau cywirdeb a deall pa adran sy'n gyfrifol am ddarparu gwybodaeth fel y gellir ei monitro a'i hybu i ddsbarthu ceisiadau yn ôl y dyddiadau cau deddfwriaethol	Rhagfyr

## 2. Gwella Prosesau

Rhif	Cam Gweithredu	Pwrpas	Amserlen
2.1	Cynyddu'r defnydd o eithriad a.21 – 'gwybodaeth sydd ar gael yn hawdd' i'r cyhoedd.	Drwy wella gwybodaeth y tîm Rhyddid Gwybodaeth am y wybodaeth sydd eisoes ar gael ar-lein ar gyfer ceisiadau cyffredin am Ryddid Gwybodaeth, bydd y galw am bwyntiau cyswllt yr heddlu a Swyddogion Datgelu yn lleihau. Gellir cyfeirio ymgeiswyr at y wybodaeth i atal gwybodaeth a gesglir yn cael ei dyblygu, yn gysylltiedig â 2.2	Ar waith Rhagfyr
2.2	Cynllun Cyhoeddi – sicrhau bod y wybodaeth ofynnol a restrir yn y Cynllun Cyhoeddi yn gyfredol ac wedi'i chyhoeddi ar ein gwefan, a chynyddu nifer y deunydd sydd ar gael ar-lein – yn benodol mewn perthynas â gwybodaeth y gofynnir amdani yn rheolaidd drwy Ryddid Gwybodaeth	Bydd hyn yn gwella tryloywder ac yn gwneud data/gwybodaeth yn haws cael gafael arnynt i'r cyhoedd.	Mis Rhagfyr, ond mae proses adolygu cyhoeddiad yr heddlu wedi dechrau
2.2.1	Ystyried lanlwytho ymatebion Rhyddid Gwybodaeth hanesyddol (2 flynedd)	Bydd hyn yn gwella tryloywder ac yn gwneud data/gwybodaeth yn haws cael gafael arnynt i'r cyhoedd.	BAU - mynd rhagddo
2.3	Sicrhau bod y cais am wybodaeth yn mynd i'r adran gywir pan gaiff cofnodion eu gwneud gyda dyddiad clir yn nodi pan fydd angen iddynt ddarparu'r wybodaeth.	Bydd hyn yn gwella ein hamser i ymateb i'r ymgeisydd, a chydymffurfio â'r dyddiad cau deddfwriaethol 20 diwrnod.	Ar unwaith
2.4	Brysbennu'r broses ddyrannu Rhyddid Gwybodaeth i sicrhau bod pwynt cyswllt priodol yr heddlu yn ymdrin â'r cais	I atal oedi yn y system – ystyried cynnwys rôl cydlynu llif gwaith	Cwblhau erbyn mis Rhagfyr ar ôl adolygiad CIT
2.5	Archwilio'r defnydd o dechnoleg (IVANTI) ar gyfer system gofnodi ac olrhain i'r tîm Rhyddid Gwybodaeth, ac i'w defnyddio gan feysydd busnes eraill yn yr heddlu	Gwella a sicrhau atebolrwydd ar draws yr heddlu	Dechrau cwmpasu ar unwaith
2.6	Swyddogion Datgelu i wneud penderfyniadau cadarn, cyfreithlon a moesegol drwy ddarparu'r lefel gywir o gymorth	Mae angen dibynnu llai ar Reolwyr Llinell Rhyddid Gwybodaeth/DP i wirio'r holl ymatebion, gan fod hyn yn	Ar Waith

	a hyfforddiant ac ymwybyddiaeth.	achosi oedi ac yn lleihau ein gallu i ymateb mewn 20 diwrnod.	
2.7	Hyfforddiant – Sefydlu cynllun hyfforddiant a chymhwysedd clir ar gyfer staff parhaol a dros dro er mwyn rhoi sicrwydd pan fyddant yn barod i'w cymeradwyo.	Ceir lefel uchel o staff dros dro sy'n ymdrin ag achosion llai cymhleth na staff parhaol/profiadol. Mae angen i'r heddlu sicrhau'r broses sy'n arwain at gymhwysedd a galluoedd. Mewn perthynas â hyfforddiant, mae angen i ni nodi y bydd staff yn gweithio tuag at amlgymhwysedd – mae angen i'r staff allu perfformio ym mhob maes o'r busnes i atal methiannau. Bydd hyn yn dangos ein bod eisoes yn edrych ar wella perfformiad mewn meysydd busnes eraill	
2.8	Hyfforddiant – rhoi hyfforddiant pwrpasol ar waith, gan ddefnyddio sgiliau arbenigwyr SME ar gyfer timau BI a pherfformiad er mwyn gwella gallu'r tîm Rhyddid Gwybodaeth i ddileu data syml o systemau'r heddlu	Bydd hyn yn gwella ein hamser i ymateb i'r ymgeisydd, a chydymffurfio â'r dyddiad cau deddfwriaethol 20 diwrnod	Ar unwaith
2.9	Tîm Gwelliant Parhaus i weithio gyda'r tîm Rhyddid Gwybodaeth i lunio map proses 'as is', a chynnig proses newydd sy'n cynnwys eglurder perchnogaeth a chyfrifoldeb pob cam o gylch bywyd yr ymgeisydd Rhyddid Gwybodaeth	Darparu eglurder ym mhrosesau a chyfrifoldebau'r tîm Rhyddid Gwybodaeth a phwyntiau cyswllt unigol yr is-adrannau a fydd yn gwella ansawdd ac amseru ymatebion. Hefyd nodi niferoedd gofynnol y staff yn y tîm Rhyddid Gwybodaeth.	Mis Rhagfyr – cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf 26/07/2024 ac mae'r gweithdy cyntaf wedi'i drefnu ar gyfer 1 Awst
2.10	Gwella cyfathrebu rhwng pwyntiau cyswllt unigol adrannol a'r tîm Rhyddid Gwybodaeth	Gwella amseru ymatebion a sicrhau y caiff unrhyw esboniadau eu derbyn yn brydlon.	Ar unwaith
2.11	Egluro sefyllfa'r heddlu ar gyfer cyfathrebu ag ymgeiswyr, er mwyn rhoi cyngor iddynt ar oedi/gofyn am eglurder/gwirio p'un a oes angen y wybodaeth arnynt o hyd ai peidio.	Gall cyfathrebu ac ymgysylltu da â'r ymgeisydd osgoi cwynion gan ein bod yn onest ac yn dryloyw â rhesymau dros yr oedi. Mae rhai ceisiadau ar gyfer rhesymau gwahanol – megis gwaith ymchwil academaidd lle nad oes	Ar unwaith

		ei angen bellach ar ôl cyfnod sylweddol o oedi.	
2.12	Sicrhau y caiff dyddiadau cau eu monitro mewn cyfarfodydd dyddiol sydd wedi'u diweddarau'n ddiweddar, a bod achosion sy'n nesáu at y dyddiad cau 20 diwrnod yn cael eu blaenoriaethu, a bod achosion syml yn cael eu nodi.	Gwella cydymffurfiaeth â'r dyddiad cau 20 diwrnod statudol sy'n dangos perfformiad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Dyma lle gellir defnyddio rôl y cydlynnydd llif gwaith, caiff hyn ei fonitro	Ar unwaith – Llunio templed DMM a dechrau cyfarfodydd
2.13	Meithrin gwydnwch drwy ddatblygu matrices sgiliau ac archwilio'r posibilrwydd o gynlluniau recriwtio a dyrchafu anghyffredin ym maes Rhyddid Gwybodaeth ac ym meysydd Rheoli Gwybodaeth.	Mae hyn yn cydnabod natur arbenigol y rolau a'r gofyn i feithrin profiad ac arbenigedd fel ffordd o feithrin gwydnwch ar draws y sefydliad a'r timau sy'n perfformio'n uchel. Mae hwn yn argymhelliad ar ôl toriadau'r PSNI. Bydd hyn yn gweithio'n well os bydd trefniadau amlgymwys ar waith	Rhagfyr
2.14	Cyflawni ymgyrch ymwybyddiaeth sefydliadol a noddur ar lefel weithredol, gan gynnwys egluro gwerth Rhyddid Gwybodaeth, bod gwybodaeth am ddiogelwch a rheolaeth yn ddyletswydd ar bawb.	Bydd yr argymhelliad ar ôl toriadau'r PSNI yn fuddiol i'r sefydliad o ran codi ymwybyddiaeth ac o ran cydymffurfio.	Mis Hydref – Y tîm cyfathrebu eisoes wedi dechrau cyfathrebu

### 3. Adfer a Gwella Gwasanaeth

Rhif	Cam Gweithredu	Pwrpas	Amserlen
3.1	Adolygu safonau cyfathrebu cyfredol ag ymgeiswyr. Byddwn yn cyflwyno gofyniad i gyfathrebu ag ymgeiswyr os na fyddwn yn cyrraedd y dyddiad cau a rhoi gwybod iddynt pa gam y mae'r cais wedi'i gyrraedd.	Sicrhau bod ymgeiswyr yn cael y wybodaeth ddiweddaraf. Bydd hyn yn darparu gwasanaeth gwell ac yn lleihau cwynion.	Hydref
3.2	Archwilio'r defnydd o dechnoleg – Ystyried a ellir defnyddio dull awtomatig i gyfathrebu ag ymgeiswyr er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt.	Lleihau tasgau gweinyddol ailadroddus ac sy'n gallu cael eu methu ac yn gadael ymgeiswyr heb gyswllt	Rhagfyr Mae'r heddlu yn ystyried defnyddio IVANTI
3.3	Cynnig goramser i staff er mwyn helpu i leihau ôl-groniad.	Ymateb cyn gynted ag y bo'n bosibl i ymgeiswyr sydd wedi bod yn aros am y cyfnod hiraf.	Ar waith
3.4	Cyfrifo dyddiad cau realistig ar gyfer y cyfnod pan fydd ôl-groniad yn cael ei glirio.	Rhoi sicrwydd i'r Prif Swyddogion y bydd yr ôl-groniad yn cael ei glirio erbyn 20 Rhagfyr fel y cyfarwyddir yn yr Hysbysiad Gorfodi.	Rhagfyr